# Cylchlythyr Rhwydwaith Gofal Plantr
# Medi 2025

## Diolchiadau Tymor yr Hydref!

Gobeithio y cawsoch chi saib hyfryd a digon o gyfle i orffwys dros wyliau'r haf! Diolch yn fawr iawn i'r lleoliadau hynny sydd wedi diweddaru eu manylion ar DEWIS yn ddiweddar. Mae hwn yn gyfle gwych i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd am eich lleoliad.

Mae ein tîm wedi bod yn diweddaru gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gyda chyfleoedd hyfforddiant, felly cofiwch chwilio www.torfaenfis.org.uk am ddolenni ac adnoddau defnyddiol wedi'u teilwra’n arbennig ar eich cyfer chi.

Tîm Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Torfaen
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

# Ehangu Dechrau'n Deg

Diddordeb mewn dod yn ddarparwr Dechrau'n Deg ond ddim yn gwybod sut i ymgeisio? Dyma ganllaw cam wrth gam i gofrestru gyda Proactis:

Dim ond trwy'r porth y derbynnir tendrau ac nid trwy unrhyw ffordd arall, oni bai fod y Cyngor wedi cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

- Ewch i https://supplierlive.proactisp2p.com/Account/Login
- Os nad ydych wedi cofrestru, cliciwch ar "Signup," llenwch y manylion, a chliciwch ar "Register" (dim ond unwaith i bob sefydliad)
- Os nad ydych yn siŵr a yw'ch sefydliad wedi'i gofrestru ai peidio, cysylltwch â'ch Prif Gyswllt yn hytrach na chofrestru eto
- Mae'r Prif Gyswllt yn cael e-bost i actifadu'r cyfrif; cliciwch ar y ddolen i'w actifadu.
- Mewngofnodwch gyda'ch Enw Mewngofnodi a'ch cyfrinair dros dro o'r e-bost
- Llenwch y manylion Hunangofrestru a Manylion y Sefydliad; crëwch gyfrinair newydd ar dudalen 8
- Cliciwch ar "Complete Registration"
- Cliciwch ar y bocs coch "Opportunities", a chwiliwch am "Torfaen"
- Dewch o hyd i'r cyfle o'r enw "T.4544 - Dynamic Purchasing System (DPS) for Flying Start Childcare placements " a chliciwch ar y saeth wen yn y cylch glas
- Cliciwch ar "Register Interest"
- Defnyddiwch eicon y telesgop i chwilio am "Torfaen" eto a dewch o hyd i'r cyfle sydd nawr wedi'i farcio'n Breifat
- Cliciwch ar y saeth wen yn y cylch glas i fynd ato
- Darllenwch y dogfennau o dan "Request Documents" cyn ateb unrhyw gwestiynau
-

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma.Treadgold@Torfaen.gov.uk neu Hayley Morgan Hayley.Morgan@torfaen.gov.uk

# Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae’r gwyliau’r Hydref yn agosáu

Gwnewch yn siŵr bod eich Cytundebau gyda rhieni yn cynnwys oriau gwyliau os am ddefnyddio'r Cynnig yn y gwyliau.

Rhagor o wybodaeth yma:
👉 https://www.llyw.cymru/darparwyr-yn-rheoli-cytundebau-cynnig-gofal-plant-cymru
👉 https://www.llyw.cymru/darparwyr-yn-hawlio-taliadau-o-gynnig-gofal-plant-cymru

Am help a chyngor ffoniwch ein llinell gymorth genedlaethol ar 03000 628 628

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

# Cyllid a Dolenni:

Meithrin Natur

Mae Meithrin Natur yn rhaglen gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i wella iechyd a llesiant plant a'u gofalwyr, trwy ddod i gyswllt â'r amgylchedd naturiol, yng Nghymru.

Rhaid i ymgeiswyr weithio mewn partneriaeth i gyflwyno cais – mae'r gronfa eisiau i sefydliadau ddod â gwybodaeth at ei gilydd o sectorau gwahanol, er enghraifft y rheiny sy'n gweithio yn: y blynyddoedd cynnar, natur a'r amgylchedd, ac iechyd a llesiant. Mae'r rhaglen yn cynnig hyd at £25,000 fel cyllid i ddatblygu a hyd at £2 miliwn, am hyd at chwe blynedd, i gyflawni'r prosiect. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12:00pm, ar 1 Rhagfyr 2025. Am ragor o wybodaeth ewch i Ariannu: Meithrin Natur - Chwarae Cymru.

Seiberddiogelwch

Sut i ddiogelu gwybodaeth sensitif am eich lleoliad a'r plant yn eich gofal rhag difrod damweiniol a throseddwyr ar-lein.

https://www.ncsc.gov.uk/guidance/early-years-practitioners-using-cyber-security-to-protect-your-settings

Sut i amddiffyn eich hun rhag effaith torri data
https://www.ncsc.gov.uk/guidance/data-breaches

# Cyfleoedd am Hyfforddiant:

## Rhaglen Hyfforddi Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)

Mae EYDCP wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau staff sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar neu ofal plant yn Nhorfaen.

Cyflwynir rhaglen flynyddol o hyfforddiant dros y flwyddyn academaidd. Mae Gwybodaeth am yr Hyfforddiant yn cael ei hanfon at ddarparwyr Gofal Plant bob tymor.
Mae'r rhaglen hyfforddi yn darparu hyfforddiant statudol hanfodol sy'n cynnwys Diogelu, Cymorth Cyntaf Pediatrig, Diogelwch Bwyd Lefel 2, Codi a Chario, a Iechyd a Diogelwch gan gynnwys Asesiadau Risgiau.

Cliciwch yma ar gyfer Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Torfaen Tymor yr Hydref 2025

## Hyfforddiant Rhaglen 'Prevent'

Hyfforddiant am y ddyletswydd 'Prevent': Dysgwch sut i gefnogi pobl sy'n agored i radicaleiddio
https://www.support-people-susceptible-to-radicalisation.service.gov.uk/

# Noson o Ddathlu

Ar 25 Medi fe fuon ni'n dathlu er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd ein darparwyr gofal plant Blynyddoedd Cynnar yn Nhorfaen, a'u cydnabod
.

Mae eich rôl yn un hanfodol, ac yn golygu bod rhieni yn gallu mynd i'r gwaith, neu aros yn y gwaith, ac mae'n rhoi lle diogel i'n plant lleol i archwilio a dysgu trwy brofiadau chwarae ac amgylcheddau sy'n meithrin.

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth a hefyd i'n siaradwyr, Sue Morgan, Eryl Powell a Jenny Mosely a roddodd adloniant a oedd yn llawn ysbrydoliaeth.







